# Mynd am Dro heb Fynd o'ch Co'

## Cyngor i gadw eich ci a da byw yn ddiogel yng nghefn gwlad'

### Oeddech chi'n gwybod eich bod yn gallu torri'r gyfraith drwy adael i'ch ci boeni da byw?

### Mae hyn yn cynnwys:

- Ymosod ar dda byw
- Rhedeg ar ôl da byw
- Crwydro'n rhydd ac allan o reolaeth

Mae mynd â'ch ci am dro yn rheolaidd yn bwysig er mwyn ei gadw'n hapus ac yn iach. Fodd bynnag, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich ci yn cerdded yn ddiogel lle mae da byw, neu lle gallai da byw, fod yn bresennol.

### Nid cŵn yn ymosod ar dda byw yw'r unig broblem.

Gall bygwth da byw neu redeg ar eu hôl achosi straen eithafol i'r anifeiliaid, sy'n gallu achosi erthyliadau ac afiechyd. Yn ogystal â pheri gofid i ffermwyr ac effeithio ar eu bywoliaeth.

## Gair i gall... ar gyfer bod yn gyfrifol wrth fynd am dro yng nghefn gwlad

### Cynllunio ymlaen llaw

- **Edrychwch ar lwybrau cerdded** i weld a oes llwybrau eraill i osgoi ardaloedd lle mae da byw.
- **Gwnewch yn siŵr** bod yr offer rydych chi'n ei ddefnyddio i fynd â'ch ci am dro mewn cyflwr da a'i fod yn ffitio'n iawn, gan gynnwys y goler / harnais, a'r tennyn.
- **Manylion adnabod –** gwnewch yn siŵr bod manylion sglodyn eich ci yn gyfredol a'i fod yn gwisgo manylion adnabod gweladwy.
- **Cadwch lygad** am arwyddion bod da byw o gwmpas. Galwch ar eich ci i ddod yn ôl atoch chi os ydych chi'n mynd i mewn i ardal newydd.

### Cerdded wrth ymyl da byw

- **Hyd y Tennyn –** cadwch gŵn ar dennyn byr mewn ardaloedd lle mae da byw, neu wrth fynd i mewn i ardaloedd anhysbys. Mae da byw yn llai tebygol o fynd i banig os yw eich ci yn agos atoch chi, felly dyma'r dewis mwyaf diogel.
- **Cadwch eich pellter –** rhowch gymaint o le ag y gallwch chi i dda byw, byddant yn teimlo'n fwy diogel po bellaf yr ydych chi oddi wrthynt.
- **Os bydd da byw yn dod atoch chi –** peidiwch â chynhyrfu a cherddwch yn araf. Os bydd anifail yn rhedeg ar eich ôl, sy'n annhebygol iawn, mae'n bosibl y byddai'n fwy diogel i chi ollwng tennyn eich ci.

### Cofiwch

- Efallai na fydd cŵn sydd fel arfer yn dod yn ôl atoch chi pan fyddwch chi'n galw arnynt yn y parc yn gwneud hynny yng nghefn gwlad. Bydd yr arogleuon, y golygfeydd a'r synau diddorol yn gyffrous iawn, ac efallai y bydd eich ci yn ymddwyn yn wahanol.
- Hyd yn oed os oes gennych chi reolaeth ragorol dros eich ci, bydd da byw yn dal i boeni mwy am gi ar dennyn na chi oddi ar dennyn – rydym bob amser yn cynghori eich bod yn cadw cŵn ar dennyn byr.
- Mae cŵn yn arbennig o dda am arogli a byddant yn gallu synhwyro bod da byw o gwmpas cyn i chi allu eu gweld – byddwch yn ymwybodol o newidiadau yn ymddygiad eich ci a allai awgrymu bod da byw yn agos.
- Mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau pryderus sy'n ymwneud â da byw yn digwydd pan fydd cŵn yn crwydro o gartref. Gwnewch yn siŵr bod eich eiddo yn ddiogel ac nad yw'ch ci yn gallu dianc.
- Os yw popeth arall wedi methu, mae gan ffermwyr ganiatâd i saethu cŵn sy'n poeni eu hanifeiliaid.

I gael rhagor o gyngor ar anifeiliaid anwes, ewch i **bluecross.org.uk**